

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn print bras ac mewn fformatau eraill ar gais.

CYNGOR BRO MORGANNWG

CYNLLUN ADLEOLI

[a] **AMODAU CYFFREDINOL**

1. Nid yw'r cynllun hwn ond yn gymwys i gyflogeion y mae angen iddynt symud eu cartrefi fwy na 60 milltir er mwyn derbyn swydd gyda'r Cyngor ac mae'n amodol felly i'r gweithiwr ddechrau byw yn ardal Cyngor Bro Morgannwg. Bydd pob cais yn parhau yn amodol ar argymhelliad y Pennaeth Gwasanaeth a chymeradwyaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol ar ôl ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Adnoddau ac Aelodau Perthnasol y Cabinet sy'n cynrychioli Adnoddau Dynol a'r Gyfarwyddiaeth sy'n cyflogi.
2. Rhoddir cymorth o dan y cynllun ar yr amod bod y cyflogai yn llofnodi ymrwymiad y bydd yr holl arian a dalwyd yn ad-daladwy ar unwaith (oni chytunir ar raddfa amser hirach) i'r Cyngor os yw'r cyflogai'n gadael gwasanaeth y Cyngor ar ei liwt ei hun o fewn dwy flynedd wedi dyddiad dechrau'r dyletswyddau. Bydd cyflogai sy'n gadael y Cyngor yn wirfoddol yn ystod y drydedd flwyddyn ar ôl i'r dyletswyddau ddechrau yn gymwys i gael gostyngiad yn y swm sy'n ad-daladwy i'r Cyngor o un rhan o ddeuddeg cyfanswm y lwfans a roddwyd ar gyfer pob mis a gwblhawyd o wasanaeth dros 2 flynedd.
3. Ni fydd uchafswm y taliad i gyflogai mewn perthynas â rhannau 'a' i 'ch' o dan y cynllun hwn yn fwy na £8,000 gros gan gynnwys TAW, ac mae'n rhaid darparu'r anfonebau/derbynebau angenrheidiol ar eu cyfer cyn ad-dalu'r gwariant i'r cyflogai.
4. Pan ellir gwneud unrhyw hawliad mewn perthynas ag unrhyw awdurdod neu sefydliad arall, bydd ceisiadau unigol am gymorth o dan y Cynllun hwn yn cael eu cyfeirio at y Cabinet benderfynu.
5. Bydd y cynllun ar gael i weithwyr newydd am hyd at 6 mis ar ôl iddynt ddechrau gweithio i Gyngor Bro Morgannwg. Daw cymhwysedd ar gyfer y cynllun i ben ar ôl y cyfnod hwn.

[b] **COSTAU SYMUD**

Rhaid i gyflogai y mae'n ofynnol iddo symud tŷ gael ad-daliad am y treuliau canlynol os digwydd y rheiny o reidrwydd ac mewn gwirionedd:-

1. Cost cymryd ymaith dodrefn ac eiddo o'i hen gartref i'r newydd, gan gynnwys yswirio nwyddau sy'n cael eu cludo. Bydd yr ad-daliad yn hafal i swm isaf dau dendr cystadleuol (ar yr amod y gall y cyflogai gyflogi contractwr ei ddewis os yw'r cyflogai'n talu'r gwahaniaeth yn y gost rhwng hyn a'r tendr isaf).
2. Costau teithio i'r cyflogai a'i ddibynyddion o'i hen gartref i'r newydd ar gyfraddau cludiant cyhoeddus (ail ddsbarth os defnyddir y rheilffordd) am y diwrnod/diwrnodau'r symud neu ar gyfradd fesul milltir mewn car o 20c y filltir sef yr uchafswm gros.

[c] **FFIOEDD CYFREITHIOL AC ERAILL SY'N GYSYLLTIEDIG Â GWERTHU A PHRYNU EIDDO PRESWYL**

1. Rhaid i gyflogai sy'n gorfod gwerthu ei eiddo preswyl teuluol gael ad-daliad am ffioedd cyfreithiol, asiant tai ac adbrynu morgais rhesymol sydd o reidrwydd yn gysylltiedig â'r gwerthiant.
2. Caiff cyflogai sydd, ar ôl gwerthu ei gartref teuluol neu derfynu ei denantiaeth, a phrynu eiddo preswyl arall, yn cael ad-daliad rhesymol am y ffioedd cyfreithiol, adbryniad morgais a'r ffioedd cynnal arolwg sy'n rhan o'r pryniant.
3. Pan nad yw asiantau tai nac arwerthwyr yn rhan o'r pryniant, bydd y cyflogai yn cael ad-daliad am y costau hysbysebu gwirioneddol o fewn yr uchafswm sydd ar gael.
4. Os tenantiaeth sydd, bydd y cyflogai yn cael ei ad-dalu am gost wirioneddol o roi'r gorau i'r denantiaeth.

[ch] **LWFANSAU LLETY DROS DRO**

Fel cymorth dros dro, rhoddir lwfans o hyd at £150 yr wythnos am hyd at chwe mis i gyflogai nad yw'n gallu darparu llety ar unwaith i'w hunan o fewn pellter rhesymol i'w safle cyflogaeth newydd ac felly mae'n rhaid i'r cyflogai ddod o hyd i lety dros dro.

Fel dewis arall, gall cyflogai a fyddai fel arfer yn gymwys i gael lwfans llety dros dro gael ad-daliad am dreuliau teithio (pris trên ail ddsbarth neu docynnau bws/tymor, pa un bynnag yw'r rhataf), rhwng y Barri a'u cartref presennol am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis.

- [d] Mae cyfanswm yr uchod yn parhau i fod yn gymwys i'r uchafswm o £8000, gan gynnwys TAW a amlinellir o dan amodau cyffredinol (a) 3.

Cabinet
04/02/04

Dyddiad Gweithredu
27/02/04
Diwygiwyd 17/05/06
Diwygiwyd 13/06/06

Dyddiad Adolygu
04/02/06

Adran
Adnoddau Dynol

- [e] Bydd y cyflogai yn gyfrifol am unrhyw dreth neu rywmedigaeth Yswiriant Gwladol a godwyd wrth adleoli. Er mwyn bod yn gymwys i gael rhyddhad treth, fel arfer mae'n rhaid i'r costau symud neu'r buddiannau a ddarparwyd gael eu codi cyn diwedd y flwyddyn asesu sy'n dilyn yr un y mae'r cyflogai yn dechrau'r swydd newydd ynddi.

HR/USERS/POLICIES & PROCEDURES/20 01 04

Diwygiwyd 17 05 06

Diwygiwyd 13 06 06

Cabinet
04/02/04

Dyddiad Gweithredu
27/02/04
Diwygiwyd 17/05/06
Diwygiwyd 13/06/06

Dyddiad Adolygu
04/02/06

Adran
Adnoddau Dynol